

Hanes byr Countrymen UK

Ysbrydoliaeth

Cafodd y model ar gyfer Countrymen UK ei ysbrydoli gan lwyddiant clwb Countrymen Fferm Gofal Future Roots yn Dorset, a ddechreuodd yn 2011, gyda chyllid gan Raglen Silver Dreams y Loteri Fawr.

Sefydlwyd y Clwb gan fod angen gwasanaeth ar gyfer dynion a oedd yn wynebu newidiadau i'w bywyd o ganlyniad i ynysu gwledig, eu cyflyrau iechyd a heneiddio.

Mwy o Gynhwysiant

Roedd y prosiect gwreiddiol yn ymwneud ag unigolion o gymunedau gwledig a oedd wedi gweithio ar ffermydd neu allan yn yr awyr agored. Ond datblygodd y prosiect i gynnwys unrhyw ddyn sydd â diddordeb mewn cefn gwlad.



Ein nod yw cynnig cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan alluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gwella eu lles drwy ysgogir corff ar meddwl. Erbyn hyn rydym yn ehangu ein rhwydwaith o Grwpiau Countrymen UK i ardaloedd eraill.

Julie Plumley

Sylfaenydd Future Roots a Countrymen UK

Os ydych yn teimlo y gallai eich Fferm Gofal gynnig amrywiaeth o wasanaethau i'r dynion hyn a'u gofalwyr yn eich ardal chi, cysylltwch â ni yn gyntaf a gofyn am ein Ffurflen Mynegi Diddordeb.

Mae'n hawdd cysylltu â ni!

E-bost: admin@countrymenuk.org

Ffôn: 01963 210789

Neu ewch i'n gwefan yn:

www.countrymenuk.org



c/o Future Roots, Rylands Farm, Boyshill Drove,
Holnest, Sherborne, Dorset DT9 5PS


Mae Countrymen UK yn fenter Future Roots a gyllidir gan arian y Loteri; ac yn aelod o Care Farming UK



Anxiety stroke Isolation and Loneliness
Parkinsons Dementia Depression
Respiratory & Lung conditions
Bipolar Disorder Injuries Heart Disease
PTSD Arthritis Pain Cancer

Rydym yn bodloni'r heriau

Ymunwch â ni i wneud gwahaniaeth



Cael effaith bositif

Mae Countrymen UK yn canolbwyntio ar ddynion sy'n teimlo'n ynysig oherwydd dirywiad yn eu hiechyd corfforol neu iechyd meddwl neu newid o ran amodau cymdeithasol, boed hynny mewn ardaloedd gwledig neu drefol.

Gyda rhwydwaith o Ffermydd Gofal, gallwn gysylltu â dynion sydd wedi bod â chysylltiad blaenorol â ffermydd ac amgylchedd awyr agored arall, drwy eu gwaith, gweithgareddau hamdden neu gariad at gefn gwlad.

Mae ein slogan 'Getting back to being you' yn adlewyrchu'r gred bod ffermydd, amgylchedd gwaith a mannau gwyrdd yn helpu dynion i gadw eu hunaniaeth ac yn cael effaith bositif ar iechyd corfforol a lles meddyliol.

Sbarduno Syniadau

Rydym yn cael cymorth gan raglen sbarduno syniadau y Loteri Fawr, sy'n cefnogi prosiectau a brofwyd eisoes o ran eu harwyddocâd cenedlaethol. Gallant nawr ehangu i feysydd eraill gyda'r nod o gynyddu effeithiau positif. Mae'r rhaglen hon hefyd yn annog gwaith a fydd yn helpu i newid neu ddylanwadu ar bolisi ac arferion.

Hyfforddiant a chymorth

Mae Countrymen UK yn falch o allu rhannu ein model llwyddiannus ni â Ffermydd Gofal eraill yn y DU, gan roi iddynt yr offer, hyfforddiant a chymorth i gychwyn eu Grwpiau Countrymen UK.

Rwyf wrth fy modd allan ar y fferm. Mae'n dwyn yn ôl atgofion. Mae'n antur newydd i fi – yn antur iach, ac o'm cwmpas mae pobl sy'n rhannu'r un diddordebau â fi.

Bob J Aelod o Countrymen UK

Mae e' allan yn yr awyr agored yn cymryd rhan mewn rhywbeth a arferai fod yn fywyd bob dydd iddo, yn ogystal â diddordebau newydd. Mae gyfle i mi gael seibiant, a gwn ei fod mewn man diogel ac ysgogol.

Pam D gpfalwr



Ymunwch â ni

Gyda'r cymorth iawn, gallai'r gymuned elwa o'ch Fferm Gofal chi drwy ddarparu gwasanaeth effeithiol y mae ei angen yn fawr.

Neu, os hoffech chi, neu berson yr ydych chi'n gofalu amdano, ymuno â Grŵp Countrymen UK, cysylltwch â ni i gael gwybodaeth am grŵp sy'n agos atoch.

